

Yr Amgylchedd, Ffyrdd a
Chyfleusterau
Swyddfeydd Mochdre,
Conway Road,
Mochdre,
LL28 5AB.



Environment, Roads and
Facilities
Mochdre Offices,
Conway Road,
Mochdre,
LL28 5AB.

Adain Gwaith Stryd

Ffôn / Tel: (01492) 575 437 Ffacs / Fax (01492) 575454
gwaithstryd@conwy.gov.uk streetworks@conwy.gov.uk

Street Works Section

**CAIS am Drwydded i Reoli Gadael
Defnyddiau Adeiladu a Rhwystrau ar
Strydoedd o dan Ddeddf Priffyrdd 1980.**

**APPLICATION for a Licence for the
Control of Deposits of Building Materials
and Obstructions in Streets in accordance
with the Highways Act 1980**

ADRAN 1 PERCHENNOG Y RHWYSTR BWRIEDIG		SECTION 1 OWNER OF PROPOSED DEPOSIT	
Enw a Chyfeiriad y Perchennog Name & Address of Owner		Enw a Chyfeiriad y Cwsmer Name & Address of Client	
Ffôn/Tel:	Ffacs/Fax:	Ffôn/Tel:	Ffacs/Fax:
ADRAN 2 COFRESTRU RHWYSTR "RHAN N"(LLE BYDD Y GWAITH A DISGRIFIAD OHONO)		SECTION 2 PART N REGISTRATION OF DEPOSIT (LOCATION & DESCRIPTION)	
Dyddiad Dechrau (Gosod y Rhwystr) Start Date (Deposit Placed)		Dyddiad Gorffen (Symud y Rhwystr) Completion Date (Deposit Removed)	
Enw / Rhif yr Eiddo Property Name / Number			
Enw'r Stryd Street Name			
Tref Town			
Cod Post Post Code			
Ardal y Rhwystr Area of Deposit			
Priffordd Carriageway		Palmant Footway	
		Tir ymyl y ffordd Verge	
			Llwybr Beicio Cycle Track
Rhif Grid A.O. (8 Ffigwr) O. S. Grid Reference (8 Figures)			
Math o Rwystr Type of Deposit / obstruction			
Arwyddion, Golau a Gwarchodau Signing, Lighting & Guarding			

AT DDEFNYDD YR AWDURDOD PRIFFYRDD YN UNIG / FOR HIGHWAY AUTHORITY USE ONLY

AMODAU SY'N BENODOL I'R SAFLE
SITE SPECIFIC CONDITIONS

YR HAWL I OSOD / ADAEL	CYMERADWYWD APPROVED	NI CHYMERADWYWD NOT APPROVED	PERMISSION FOR THE DEPOSIT IS
LLOFNODWYD AR RAN YR AWDURDOD / SIGNED ON BEHALF OF THE AUTHORITY:.....		DYDDIAD / DATE:.....	

*Mae'n rhaid ailgyflwyno unrhyw newid i fanylion y gwaith bwriedig
Any changes to your proposed work or dates must be re-submitted.*

ADRAN 3 – INDEMNIAID AC YSWIRIANT	SECTION 3 – INDEMNIFICATION & INSURANCE
<p>Tystysgrif Indemniad Yswiriant:</p> <p>Dylai'r indemniad a roir gan y Polisi fod dim llai na £5,000,000 ar gyfer unrhyw un ddamwain neu unrhyw un hawliad.</p> <p>Rwyf/rydym yn tystio trwy hyn fy mod / ein bod yn dal y polisi a enwir isod efo:</p>	<p>Insurance Indemnity Certificate:</p> <p>The indemnity provided by the Policy should not be less than £5,000,000 for any one accident or any one claim.</p> <p>I/we hereby certify that I / we hold the under mentioned policy with:</p>
Enw'r Cwmni Yswiriant:	Name of Insurance Company:
Rhif Polisi:	Policy No:
Mae angen i'r ymgeisydd ddangos tystiolaeth bod y polisi yswiriant mewn grym am gyfnod y gwaith i gyd.	The applicant is required to produce proof that the insurance policy is in force for the duration of the works.

ADRAN 4 - CYNLLUNIAU	SECTION 4 – PLANS
<p>Rhaid i'r cynlluniau a ganlyn gael eu cyflwyno efo'r cais hwn.</p> <ol style="list-style-type: none"> Cynllun y safle lle bwriedir Gosod y Defnyddiau neu Rwystr (1:500). Cynllun yn dangos lleoliad y safle mewn perthynas â'r ardal gyfagos (1:2500). 	<p>The following plans must be submitted with this application:</p> <ol style="list-style-type: none"> Plan showing the proposed siting of the Deposit of Material or Obstruction (1:500). Location plan showing the site location in relation to its surroundings (1:2500).

ADRAN 5 - DATGANIAD	SECTION 5 – DECLARATION
<p>Rwyf / Rydym yn cytuno i gydymffurfio â phob amod o'r drwydded hon a roddwyd i mi /ni gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy.</p> <p>Mae tâl o £97 efo hwn, i dalu am gost y Drwydded.</p> <p>Rhif y Siec/Archeb Bost:</p>	<p>I / We agree to abide by all the conditions laid down in this Licence by Conwy County Borough Council.</p> <p>I enclose a fee of £97</p> <p>Cheque/Postal Number:</p>

Llofnodwyd	_____	Signed
Dyddiad	_____	Dated

Anfonwch y ffurflen hon yn ôl i'r Adain Gwaith Stryd.

DYLECH DDARLLEN YR AMODAU.

MAE'R DDOGFEN HON AR GAEL MEWN PRINT BRAS.

AMODAU CYFFREDINOL AR GYFER GADAEI DEFNYDDIAU NEU RWYSTRAU AR BRIFFORDD

1. Dan Adran 171 Deddf Prifffyrdd 1980, gall unigolyn (gyda chaniatâd yr Awdurdod Prifffyrdd) adael defnyddiau adeiladu, sbwriel neu rwystrau eraill dros dro, ar stryd sy'n briffordd ac sy'n cael ei chynnal a'i chadw ar draul y cyhoedd.
2. Bydd y rhwystr yn cael ei osod fel a gafodd ei nodi gan yr Awdurdod Prifffyrdd ac a gytunwyd arno gan Beiriannydd Rhanbarthol yr Adran, neu Swyddog arall gydag awdurdod, er mwyn sicrhau bod cyn lleied o anghyfleustra ag y bo modd yn cael ei achosi i lif cerbydau a cherddwyr.
3. Bydd Daliwr y Drwydded yn rhoi digon o rybudd i'r Cyngor Bwrdeistref Sirol am adael defnyddiau neu rwystr ar y briffordd. Mae'n rhaid iddo / iddi lenwi a chyflwyno Rhan N, Adran 2 y ffurflen gais. Mae'n rhaid rhoi gwybod am unrhyw newidiadau drwy ailgyflwyno Adran 2, gan roi saith niwrnod o rybudd cyn y dyddiad dechrau.
4. Bydd yr ymgeisydd yn indemnio'r Cyngor Bwrdeistref Sirol a/neu Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn erbyn pob trallod, cam, achos, hawliad, gorchymyn, costau, difrod a threuliau y gellir eu codi neu eu dwyn yn ei erbyn, oherwydd unrhyw beth all godi, naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, o ganlyniad i'r caniatâd hwn, a bydd yn sicrhau bod ganddo/ganddi bolisi yswiriant yn erbyn risg fel hyn. Dylai swm yr yswiriant fod o leiaf £5 miliwn ar gyfer unrhyw un hawliad. Mae'n rhaid dangos copi o'r dystysgrif cyn cael caniatâd.
5. Lle ceir mwy nag un rhwystr ar y briffordd ar unrhyw adeg, bydd pob rhwystr yn cael ei osod mor agos ag y bo modd at ei gilydd, ond nid fel eu bod yn rhwystro mynediad i unrhyw eiddo, heb gael caniatâd ysgrifenedig preswlydd yr eiddo hwnnw.
6. Mae'n rhaid i Ddaliwr y Drwydded, neu ei gynrychiolydd/chynrychiolydd, sicrhau bod gan y gweithredwr y cymwysterau priodol i weithio unrhyw offer.
7. Mae'n rhaid i Ddaliwr y Drwydded gydymffurfio â'r rheolau a ganlyn a'u gorfodi:
Cod Ymarfer "Diogelwch gyda Gwaith Stryd a Gwaith Ffordd" a Phennod 8 y Llawlyfr Arwyddion Ffordd, sy'n cynnwys cyfarwyddyd ymarferol ynglŷn ag arwyddo, goleuo a diogelu gwaith dros dro ar y stryd, yn unol ag Adran 65 Deddf Strydoedd Newydd a Gwaith Stryd 1991 ac unrhyw ddiwygiadau i'r Ddeddf honno. Bydd angen rhoi sylw penodol i anghenion pobl anabl a chydymffurfio gydag unrhyw ofynion HSE.
8. Petai angen defnyddio system Rheoli Trafnidiaeth, dylai Daliwr y Drwydded gysylltu â'r Adran Gwaith Stryd cyn dechrau'r gwaith.
9. Ni fydd unrhyw beth sy'n cael ei adael ar y briffordd yn cynnwys unrhyw ddeunydd llosgadwy, ffrwydrol, gwenwynig na pheryglus, nac unrhyw ddeunydd sy'n debygol o bydru, neu sydd fel arall yn niwsans i ddefnyddwyr y briffordd.
10. Ni fydd unrhyw beth sy'n cael ei adael yn cael ei ddefnyddio mewn ffordd sy'n golygu bod ei gynnwys yn syrthio i'r briffordd neu fod llwch yn dod o'i gynnwys pan fydd ar y briffordd.
11. Bydd rhaid cael gwared â phob peth sy'n cael ei adael yn briodol a rhaid gadael y briffordd, lle gadawyd y defnyddiau, yn lân a thaclus pan ddaw'r caniatâd hwn i ben.
12. **Anfonwch dâl o £100.00 gyda'ch cais (mae'r taliad wedi ei eithrio rhag TAW).** Mae sieciau'n daladwy i Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy. Mae hyn ar gyfer y costau gweinyddol o £50.00 a chostau o £50.00 am yr archwiliadau.
13. Bydd un archwiliad sampl yn cael ei gynnal dan Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991, unwaith y bydd y deunydd neu'r rhwystr wedi cael ei symud ymaith. Y tâl y cytunwyd arno'n genedlaethol am hyn yw £50.00 yr un.
14. Bydd yr ymgeisydd yn gyfrifol am unrhyw ddifrod i isadeiledd y briffordd a / neu gyfarpar Ymgymmerwyr Statudol, o ganlyniad i adael defnyddiau neu rwystr ar y briffordd. Bydd union gostau atgyweirio unrhyw ddifrod yn cael ei adennill gan y Cyngor Bwrdeistref Sirol. Bydd rhaid sicrhau bod mynediad ar gael i gyfarpar gwasanaethau.

15. Os gwelir wrth archwilio bod y gwaith adfer yn ddiffygiol, bydd Daliwr y Drwydded yn talu swm o £47.50 i'r Awdurdod, fel y cytunwyd arno'n genedlaethol, am bob archwiliad a wneir gan yr Awdurdod, sef yr archwiliadau a ganlyn:
- (i) D1 - archwiliad ar y cyd gan Ddaliwr y Drwydded a'r Awdurdod i benderfynu natur y diffyg a pha waith adfer sydd angen ei wneud; (Rhaid i Ddaliwr y Drwydded gysylltu â'r arolygydd o fewn 10 diwrnod gwaith i'r hysbysiad, neu bydd D1 yn methu a bydd D1 arall yn cael ei drefnu yn awtomatig a chodir tâl amdano);
 - (ii) D2 - tra bod gwaith adfer yn cael ei wneud;
 - (iii) D3 - ar ôl gorffen y gwaith adfer.
16. Mae'n rhaid i Ddaliwr y Drwydded hefyd lenwi a chyflwyno Adran 6 y ffurflen gais, i roi gwybod i ni ar unwaith am ddyddiad symud y deunydd neu'r rhwystr o'r briffordd.

SYLWER: Mae'n drosedd dan Adran 171 i unrhyw un fynd yn groes i unrhyw amod sy'n destun y caniatâd ysgrifenedig a roddwyd gan yr Awdurdod Priffyrdd. Bydd unrhyw un sy'n troseddu yn agored i ddirwy na fydd yn fwy na £10 am bob diwrnod o dorri'r ddeddf neu fethu â chydymffurfio â hi.

